

## YMDDEOL

Bu i breswilydd hoffus dros ben o Ddolwyddelan ymddeol ym mis Tachwedd eleni. Wedi deunaw mlynedd a hanner fel Dynes Lolipop, fe gaiff **Heddwen Davies** fwynhau ychydig oriau ychwanegol yn ei gwely o hyn ymlaen.

Bu i Heddwen weithio i Gyngor Conwy ers dros 30 mlynedd. Bu'n gweithio fel Gofalwr Cartref am 15 mlynedd yna yn helpu plant yr ardal i groesi'r ffordd yn ddiogel am flynyddoedd. Dim ond y plant yn unig fydd yn colli gweld Heddwen, yn cysgodi rhag y gwynt a'r glaw Cymraeg yn arhosfan bysiau'r pentref yn y bore a'r prynhawn. Bu nifer o'r pentrefwyr yn aros am sgwrs gyda hi dros y blynyddoedd ac yn mwynhau ei gweld yn codi llaw yn llon wrth iddyn nhw yrru heibio (yn araf deg).

**Hoffem ddymuno ymddeoliad hapus iawn i Heddwen.**



## Clwb Cinio Dydd Gwener

Mae **Clwb Cinio Dydd Gwener** y pafiliwn ar hyn o bryd yn cyfarfod yn nhafarn **Y Gwydyr** am ginio bob **dydd Gwener** am **12:30yp** (mae croeso i bawb). Rydym ni'n ddiolchgar iawn i Sarah a Peter am eu lletygarwch a'u croeso cynnes.

Rydym ni'n trefnu Cinio Nadolig yng nghaffi **Dragonfly** (ar yr A5) ar **ddydd Gwener y 14eg o Ragfyr**. Does dim llawer o lefydd, felly bydd angen ichi roi eich enw a blaendal o £5 i **Eunice** neu **Nen** cyn gynted â phosibl, diolch.

## Gwasanaeth Ieuentid

Caiff cardiau Nadolig, i'w dosbarthu yn y pentref, eu casglu unwaith eto eleni.

Rhwng Rhagfyr y 7fed a'r 14eg.

Mae lleoliad newydd ichi gyflwyno'ch cardiau; blwch post y tu allan i 1 Bron Llan (i'r de o'r Spar)

